FLINTSHIRE **PUBLIC SERVICES** BOARD
BWRDD **GWASANAETHAU CYHOEDDUS** SIR Y FFLINT

Cynllun Lles
Sir y Fflint
2017 - 2023

Drafft (Tachwedd 2017)

Diogelwch Cymunedol

Ystyr hyn yw:

- Gwneud cymunedau'n fwy diogel
- Nodi arwyddion a symptomau cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol a darparu ymateb effeithiol
- Mynd i'r afael â chyffuriau ac alcohol
- Lleihau aildroseddu
- Ymateb i fygythiad grwpiau trosedd cyfundrefnol
- Mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern
- Tynnu sylw at fygythiad Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Pam fod hon yn flaenoriaeth i'r partneriaid?

Fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rydym yn gweithio mewn partneriaeth i weithredu strategaethau sy'n unol â deddfwriaeth a blaenoriaethau ehangach.[1] Ein gofynion statudol yw:

- ✓ Tynnu sylw at drosedd ac anhrefn er budd cymunedau a busnesau;
- ✓ Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau er budd y gymuned ehangach lle gall defnyddio cyffuriau darfu ar gymunedau a lle gall trigolion ddioddef trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- ✓ Lleihau aildroseddu i helpu i adsefydlu yn y gymuned;
- ✓ Cynyddu nifer yr adroddiadau am achosion o gamdriniaeth yn y cartref a throsedd rhywiol i gynyddu diogelwch teuluoedd ac unigolion;
- ✓ Mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a Gangiau Troseddu Cyfundrefnol;
- ✓ Lleihau risg cam-drin rhywiol yn cynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE);
- ✓ Gwneud ein cymunedau'n fwy diogel fel y gallant ffynnu

Beth yw'r dystiolaeth y tu ôl i'r stori hon?

Yn Ebrill 2017 aseswyd materion trosedd ac anhrefn a oedd yn effeithio ar gymunedau drwy Sir y Fflint gan Heddlu Gogledd Cymru. Y meysydd a nodwyd fel rhai y dylid eu blaenoriaethu o ran risg uchel oedd:

- Cam-drin yn y Cartref - oherwydd yr effaith eang ar y dioddefwr (corfforol, seicolegol ac ariannol), nifer y troseddau a gofnodwyd a'r duedd gynyddol.
- Camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) - gall effaith seicolegol CSE ar y dioddefwr fod yn uchel iawn felly mae'n bwysig gweithio gyda phartneriaid i atal a rheoli effeithiau CSE. Er bod CSE cyfundrefnol, yn ôl yr asesiad, yn brin yng Ngogledd Cymru, gwyddom ei fod wedi digwydd a'i bod yn debygol y bydd achosion pellach. Hefyd mae nifer cynyddol o blant mewn risg o CSE.

[1] Mae'r amcanion hyn yn unol ag Adran 6 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (fel y diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011) yn ogystal ag amcanion y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mabwysiadwyd y blaenoriaethau hyn gan Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru, a hefyd yn lleol gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint.

Diogelwch Cymunedol

- Caethwasiaeth Fodern - Mae'n debygol y bydd ystod eang o wasanaethau'n nodi nifer cynyddol o achosion. Nid yw dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern wastad yn gweld eu hunain fel dioddefwyr, felly bydd adnabod yr arwyddion a rhannu gwybodaeth yn bwysig i fynd i'r afael â hyn
- Gangiau Troseddu Cyfundrefnol a chyflenwi cyffuriau anghyfreithlon - mae bygythiad, risg a niwed yn Sir y Fflint wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf

Beth ydym ni wedi ymrwymo i'w wneud?

- ✓ Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag dioddef trais
- ✓ Cynyddu hyder i adrodd ynghylch cam-drin yn y cartref a gweithio gyda MARAC (Cynadleddau Asesu Risgiau Amlasiantaeth) i reoli lefelau achosion mynych o gam-drin yn y cartref
- ✓ Cynyddu hyder o ran adrodd ynghylch trais rhywiol / cynyddu ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc o gam-drin yn y cartref, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched
- ✓ Gwella gwasanaethau a'u hymateb i holl ddioddefwyr VAWDASV (trais yn erbyn merched, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol)
- ✓ Delio a mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn y sir
- ✓ Lleihau aildroseddu
- ✓ Datblygu dull amlasiantaeth tuag at godi ymwybyddiaeth, gofalu am ddioddefwyr, atal ac ymchwilio i Gaethwasiaeth Fodern, CSE a throseddu cyfundrefnol
- ✓ Mynd i'r afael â Gangiau Troseddu Cyfundrefnol sy'n cyflenwi cyffuriau Dosbarth A

Pa gamau penodol fyddwn ni'n eu cymryd i gefnogi'r ymrwymiadau hyn?

- ✓ Parhau i hybu'r system Online Watch Link (OWL) fel ffordd o ymgysylltu ag aelodau ein cymunedau
- ✓ Gweithio gyda 'hwb dioddefwyr' y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i sicrhau gwell gwasanaethu i ddioddefwyr troseddau
- ✓ Cefnogi partneriaid i fynd i'r afael â 'throseddu ar stepen y drws' yn ein cymunedau
- ✓ Gweithredu a hybu Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPOs)
- ✓ Cynnal y dull amlasiantaeth sy'n seiliedig ar gudd-wybodaeth i fynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol trwy sylw misol a chyfarfodydd proffesiynol ad hoc
- ✓ Codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn merched trwy gefnogi Ymgyrch Ryngwladol y Rhuban Gwyn ar lefel leol a rhanbarthol
- ✓ Parhau i fonitro effeithiolrwydd MARAC (Cynadleddau Asesu Risgiau Amlasiantaeth) trwy'r grwpiau strategol lleol, gan sicrhau eu bod yn gweithredu safonau gofynnol 'Achub Bywydau'
- ✓ Datblygu dull cydweithredol tuag at safoni gwaith y gwasanaeth Ymgynghorydd Trais yn y Cartref Annibynnol drwy'r rhanbarth
- ✓ Gweithredu Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Trais yn erbyn Merched, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru)
- ✓ Mae bylchau lleol mewn gwasanaeth yn cael eu bwydo i gylchoedd comisiynu a chynllunio rhanbarthol

Diogelwch Cymunedol

- ✓ Ymateb yn effeithiol i faterion sy'n codi gyda dulliau cyson o ran ymwybyddiaeth/triniaeth a gwella
- ✓ Gweithredu argymhellion yn deillio o'r Grŵp Adolygu Lleihau Niwed a Gwenwyn Cyffuriau
- ✓ Targedu troseddwyr mynych (oedolion) trwy broses Rheoli Troseddwyr Integredig. Nodi'r rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf (troseddwyr mynych) a mynd i'r afael â'u hymddygiad a'u haildroseddu
- ✓ Targedu troseddwyr ifanc i leihau troseddu ac aildroseddu trwy weithredu Cynllun Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint
- ✓ Rhannu cudd-wybodaeth ymysg partneriaid er mwyn deall risgiau Caethwasiaeth Fodern; Camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) a throseddu cyfundrefnol
- ✓ Sefydlu paneli Gangiau Troseddu Cyfundrefnol amlasiantaeth a mapio Gangiau Troseddu Cyfundrefnol yn Sir y Fflint
- ✓ Gweithio mewn partneriaeth i darfu ar lefel leol - gan dargedu pobl, eiddo a gweithgareddau problemus yn deillio o Droseddu Cyfundrefnol

Ble ddylem ni weld effaith?

- ✓ Hyder pobl i adrodd yn briodol i bartneriaid yn cynyddu
- ✓ Gwell gwytnwch mewn cymunedau gan arwain at lai o alw
- ✓ Cynnydd o ran adsefydlu ac integreiddio cymunedol
- ✓ Disgwyliadau realistig i'r cyhoedd
- ✓ Adnabod arwyddion a symptomau cam-drin yn y cartref, trais rhywiol a chaethwasiaeth fodern gan y cyhoedd ac asiantaethau sector gwirfoddol
- ✓ Delio'n effeithiol ag achosion risg uchel o gam-drin yn y cartref a llai o achosion mynych o erledigaeth
- ✓ Cynnydd o ran ymwybyddiaeth o effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ymysg partneriaid
- ✓ Atal pobl fregus rhag dioddef trais
- ✓ Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ar y cyd ar lefel leol a rhanbarthol
- ✓ Parhau â'r dull partneriaeth ranbarthol ymroddedig i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn
- ✓ Rhannu cudd-wybodaeth yn well ar draws asiantaethau'r bartneriaeth
- ✓ Cynnydd o ran camau'r bartneriaeth i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern, CSE a throseddu cyfundrefnol

Links with other priorities:

- ✓ **Lles a Byw'n Annibynnol** – gostyngiad o ran camddefnyddio sylweddau, llai o droseddu, llai o achosion o gam-drin yn y cartref, cynnydd yn y tebygolrwydd o weithgarwch corfforol y tu allan i'r cartref
- ✓ **Cymunedau Gwydn** – pobl yn gallu cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain yn well trwy fynediad diogel at fannau yn yr awyr agored
- ✓ **Amgylchedd** – pobl yn teimlo'n fwy diogel wrth gael mynediad at fannau gwyrdd yn eu cymuned
- ✓ **Economi a Sgiliau** – datblygu sgiliau ar gyfer cyfleoedd gwaith, lleihau diweithdra ac effaith diwygio cymdeithasol

Economi a Sgiliau

Ystyr hyn yw:

- Datblygu and gwella safleoedd strategol (cyflogaeth a thai)
- Modelu isadeiledd cludiant a gwasanaethau i gefnogi twf economaidd yn y dyfodol
- Cefnogi twf busnes ac arloesed
- Datblygu sgiliau ar gyfer cyfleoedd gwaith, lleihau diweithdra ac effaith diwygio cymdeithasol

Pam fod hon yn flaenoriaeth i'r partneriaid?

- ✓ Mae economi Gogledd Cymru mewn perygl o fod ar ei hôl hi o'i gymharu â rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig. Mae angen i Lywodraethau fuddsoddi'n helaeth yn y rhanbarth - mae angen i'r partneriaid helpu i ddadlau'r achos i sicrhau'r buddsoddiadau hynny;
- ✓ Sir y Fflint yw'r economi lleol sy'n perfformio uchaf yng Ngogledd Cymru. Mae angen i ni barhau i fod yn gystadleuol er mwyn i'r economi rhanbarthol ehangach dyfu a datblygu; ac
- ✓ Mae'r partneriaid yn brif gyflogwyr ac yn brynwyr nwyddau a gwasanaethau. Mae gennym ddylanwad dros greu swyddi a datblygu busnesau lleol.

Beth yw'r dystiolaeth y tu ôl i'r stori hon?

- Mae sectorau busnes isranbarthol allweddol uwch weithgynhyrchu, y sector modurol, awyrofod, cynhyrchu bwyd ac ynni wedi dangos eu bod yn wydn yn ystod y degawd diwethaf ond bellach maent yn wynebu dyfodol ansicr gyda datblygiadau gwleidyddol yn Ewrop.
- Sir y Fflint yw'r sir sy'n perfformio uchaf yn y rhanbarth ar gyfer Gwerth Ychwanegol Crynswth - ond mae'r rhanbarth yn gyffredinol ar ei hôl hi o'i gymharu â'r DU ac mae'r GYC y pen yng Ngogledd Cymru 86% y ganran yn y DU (2015).
- Gallai buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn twf rhanbarthol yn Lloegr fod yn fygythiad i sicrhau buddsoddiadau a masnach yng Ngogledd Cymru, wrth i'r rhanbarthau hynny ddod yn fwy cystadleuol.
- Rhagwelir bwlch o ran sgiliau ar gyfer y rhanbarth i dyfu ein sectorau busnes allweddol a helpu cyflogwyr (yn cynnwys partneriaid y BGC) gyda gweithlu sy'n heneiddio i gael staff profiadol yn eu lle dros amser. Mae blwch yn golygu bod 30% o alw am staff newydd ar gyfer swyddi crefftau medrus ym mhob sector busnes allweddol (ynni ac amgylchedd, uwch weithgynhyrchu, adeiladu) drwy'r rhanbarth, a thra bod 17% o gyflogwyr drwy'r rhanbarth wedi cynnig prentisiaethau yn 2016, mae'n dal yn bosibl cynyddu hyn.
- Mae prinder cyflenwad llafur yn y rhanbarth, ar gyfer anghenion cyflogwyr (yn cynnwys partneriaid y BGC), gyda'r her i ddod â chynifer â phosibl o bobl 'economaidd weithgar' i gyflogaeth.

Economi a Sgiliau

Beth ydym ni wedi ymrwymo i'w wneud?

- ✓ Mae Rhanbarth Gogledd Cymru ar fin cyflwyno Cais Dêl Twf Economaidd Gogledd Cymru i Lywodraethau'r DU a Chymru - byddwn yn cefnogi'r Cais hwn
- ✓ Byddwn yn cymryd camau lleol i gefnogi'r' Cais ym meysydd safleoedd ac eiddo, twf tai, isadeiledd cludiant a gwasanaethau, twf busnes ac arloesed, sgiliau a diweithdra
- ✓ Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi nodi anghenion cyflogwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer gweithlu rhanbarthol medrus a pharod. Byddwn yn cefnogi'r strategaeth hon fel cyflogwyr

Pa gamau penodol fyddwn ni'n eu cymryd i gefnogi'r ymrwymiadau hyn?

- ✓ Helpu i ddatblygu safleoedd cyflogaeth a thai strategol yn Sir y Fflint
- ✓ Adolygu ein strategaethau asedau tir i helpu i ryddhau tir ar gyfer datblygu tai neu gyflogaeth
- ✓ Cefnogi'r achos dros fuddsoddi mewn gwasanaethau cludiant lleol fel Metro Gogledd Ddwyrain Cymru
- ✓ Adolygu ein polisïau cludiant ein hunain i annog staff i ddefnyddio cludiant cyhoeddus i fynd i'r gwaith, a gweithio'n fwy hyblyg, i leihau tagfeydd traffig
- ✓ Adolygu ein polisïau caffael ein hunain i sicrhau buddion cymunedol i gyflenwyr gwasanaethau a nwyddau lleol ac isranbarthol
- ✓ Gweithredu mesurau i hybu'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector fel dewisiadau gyrfa cadarnhaol
- ✓ Gweithio gyda'n gweithlu presennol a darparwyr partner i ddarparu sgiliau a chymwysterau i helpu i ddatblygu gyrfa
- ✓ Diogelu a datblygu ein rhaglenni prentisiaeth ein hunain fel cyflogwyr
- ✓ Gweithio gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd, ysgolion, addysg bellach ac uwch, a chyflogwyr i gynnig y dewis ehangaf o opsiynau gyrfa i bobl ifanc i helpu i ddiwallu anghenion cyflogaeth ar gyfer recriwtio

Economi a Sgiliau

Ble ddylem ni weld effaith?

- ✓ Lefelau diweithdra lleol yn lleihau
- ✓ Niferoedd prentisiaethau'n cael eu cynnal neu'n cynyddu
- ✓ Mynediad at waith yn gwella
- ✓ Cefnogi pobl anweithgar i symud ymlaen i fyd gwaith
- ✓ Gwella ansawdd a mynediad at wasanaethau cyngor ynghylch gyrfaoedd
- ✓ Twf busnes a buddsoddiadau busnes newydd ar brif safleoedd cyflogaeth
- ✓ Gwella gwasanaethau cludiant sy'n cysylltu cymunedau â lleoedd gwaith
- ✓ Nifer y bobl sy'n dewis cludiant cyhoeddus i fynd i'r gwaith yn cynyddu
- ✓ Rhaglenni adeiladu tai i bobl fyw'n lleol ar gyfer swyddi lleol
- ✓ Tlodi mewn gwaith yn lleihau
- ✓ Anghydraddoldebau iechyd yn lleihau

Cysylltiadau â blaenoriaethau eraill:

- ✓ **Lles a Byw'n Annibynnol** – adeiladu a chryfhau'r sector gofal
- ✓ **Cymunedau Gwydn** – datblygu ymhellach fodelau perchnogaeth gymunedol gan gynnwys Trosglwyddo Asedau Cymunedol, (CATS), mentrau cymdeithasol bach a chyfranddaliadau cymunedol
- ✓ **Amgylchedd** – lleihau effeithiau newid hinsawdd
- ✓ **Diogelwch Cymunedol** – lleihau aildroseddu

Amgylchedd

Ystyr hyn yw:

- Datblygu mwy o gyfleoedd i gael mynediad i'r isadeiledd gwyrdd
- Diogelu a hybu'r amgylchedd
- Gwella diogelwch rhag llifogydd
- Lleihau effeithiau newid hinsawdd

Pam fod hon yn flaenoriaeth i'r partneriaid?

- ✓ Mae angen gweithredu ar y cyd i sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi, diogelu a gwella amgylchedd a thirweddau Sir y Fflint i wneud y gorau o'r manteision y gall ei gynnig i'r cenedlaethau presennol a'r dyfodol;
- ✓ Mae partneriaid y BGC yn deall y cysylltiad hollbwysig rhwng yr amgylchedd naturiol a lles pobl, yn nhermau iechyd corfforol a meddyliol;
- ✓ Mae gan Sir y Fflint nifer o ardaloedd deniadol y gellir eu defnyddio i hybu gweithgarwch a sicrhau bod pobl, yn arbennig plant, yn gallu mwynhau ac elwa ar dreulio amser yn yr awyr agored;
- ✓ Mae angen i ni hybu'r amgylchedd naturiol y tu hwnt i safleoedd sydd wedi eu diogelu eisoes, yn arbennig o gwmpas ein hardaloedd trefol er mwyn gwneud y gorau o'r manteision y gall yr amgylchedd eu cynnig i drigolion;
- ✓ Mae angen rhoi sylw i nifer o agweddau o wytnwch amgylcheddol, yn arbennig yr angen i baratoi'n well ar gyfer newid hinsawdd, yn arbennig risg llifogydd;
- ✓ Rydym eisiau sicrhau bod ansawdd yr aer gystal ag y gall fod trwy weithio gyda phartneriaid i fonitro a lleihau allyriadau niweidiol;
- ✓ Dylai partneriaid y BGC arwain y ffordd trwy hybu'r amgylchedd ar eu tir eu hunain a thrwy Sir y Fflint, a thrwy fod mor garbon niwtral â phosibl.

Beth yw'r dystiolaeth y tu ôl i'r stori hon?

- Mae'r rhai sy'n byw, yn gweithio a/neu'n ymweld â Sir y Fflint wedi dweud eu bod yn gosod gwerth uchel ar yr amgylchedd naturiol ac maent eisiau gwneud defnydd helaethach o'r amgylchedd er mwyn eu lles eu hunain.
- Mae angen deall yn well y rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio'r amgylchedd er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i bawb.
- Dengys ystadegau gynnydd tymor hir yng % y bobl sydd dros bwysau yn y sir. Yn 2014, roedd dros 25% o blant 4 i 5 oed a thua 57.5% o oedolion Sir y Fflint yn ordew neu dros eu pwysau. Mae gan gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored rôl bwysig i'w chwarae i wyrdroi'r cynnydd tymor hir hwn.

Amgylchedd

- Mae Aber Dyfrdwy, Mynydd Halcyn a safleoedd madfallod dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle wedi eu dynodi'n rhyngwladol fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Hefyd, mae 23 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), safleoedd economaidd sy'n bwysig yn genedlaethol. Er gwaethaf y dynodiadau hyn, mae nifer o rywogaethau'n lleihau oherwydd dwysáu amaethyddol, trefoli, rhywogaethau ymledol a newid hinsawdd.
- Mae llifogydd sylweddol wedi digwydd yn Sir y Fflint yn y blynyddoedd diwethaf ac mae tua 8,400 o dai mewn risg o lifogydd. Mae'r broblem hon yn cael effaith sylweddol ar les pobl.
- Mae tystiolaeth gynyddol o effaith ddifrifol llygredd aer ar iechyd mewn rhannau o Sir y Fflint sydd mewn ardaloedd trefol neu'n agos at brif ffyrdd.

Beth ydym ni wedi ymrwymo i'w wneud?

- ✓ Gweithio gyda chymunedau o bob oed a chefndir i ddeall a gwerthfawrogi manteision yr amgylchedd naturiol a sut y bydd defnyddio'r amgylchedd yn gwella eu lles corfforol a meddyliol
- ✓ Adeiladu gwytnwch yn ein cymunedau er mwyn iddynt ddeall a gallu rheoli risgiau llifogydd yn fwy effeithiol

Pa gamau penodol fyddwn ni'n eu cymryd i gefnogi'r ymrwymiadau hyn?

- ✓ Gweithio ar lefel leol i gynyddu gwytnwch cymunedau fel eu bod wedi'u haddasu'n well i newidiadau hinsawdd yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys rhestru cymunedau sydd mewn risg o ddigwyddiadau tywydd eithafol (e.e. llifogydd) a chael hyd i ddatrysiadau arloesol i'r heriau hyn
- ✓ Meithrin balchder a pherchnogaeth mewn cymunedau fel y byddant yn awyddus i ddiogelu a gwella lle maent yn byw ac yn gweithio, gan helpu i adeiladu cydlyniant cymunedol a theuluol
- ✓ Hybu manteision defnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer ymarfer, gwirfoddoli ac addysg
- ✓ Nodi a gweithredu ar faterion sy'n achosi dirywiad amgylcheddol ac economegol trwy weithio gyda phartneriaid fel y sectorau ffermio, masnachol, diwydiannol a chludiant
- ✓ Nodi'r holl asedau "gwyrdd" presennol trwy ymarferiad mapio asedau, a chwilio am gyfleoedd i hybu a chysylltu'r rhain yn y dyfodol
- ✓ Gwella cysylltiadau cludiant gwyrdd drwy Sir y Fflint ac i siroedd cyfagos
- ✓ Cymryd camau ar y cyd i leihau ôl troed carbon y BGC. Bydd hyn yn cynnwys lleihau allyriadau nwyion tŵgwydr o fewn eu hasedau i gefnogi gwell bioamrywiaeth
- ✓ Annog staff i leihau eu heffaith amgylcheddol eu hunain a'u hysbrydoli i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer eu lles eu hunain

Amgylchedd

Ble ddylem ni weld effaith?

- ✓ Gwyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth
- ✓ Lleihau nifer yr eiddo sydd mewn risg o lifogydd yn Sir y Fflint, a sicrhau bod y rhai mewn risg wedi eu paratoi'n well ac yn fwy gwydn
- ✓ Cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r awyr agored ar gyfer ymarfer, gwirfoddoli neu i ddibenion addysgol, gan arwain at fanteision o ran iechyd corfforol a meddyliol a chydlyniant cymunedol a theuluol cadarnach
- ✓ Ôl troed carbon sefydliadau sector cyhoedd yn lleihau
- ✓ Rheoli cyfoeth naturiol, yn cynnwys safleoedd dynodedig yn gynaliadwy - er budd rhywogaethau a rhoi cyfle i ni arddangos yr hyn sydd gennym yn Sir y Fflint
- ✓ Cynyddu'r dewis a'r defnydd o gyfleoedd teithio gwyrdd gan arwain at ostyngiad yng nghyfradd defnyddio ceir ymysg trigolion ac ymwelwyr i Sir y Fflint
- ✓ Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau'r eraill yn y cynllun hwn, gan fod gwaith ymgysylltu cynnar gyda chymunedau'n un o brif elfennau: helpu pobl yn ôl i fyd gwaith; gwella iechyd corfforol a meddyliol unigolion; gwerthfawrogi, diogelu a hybu'r amgylchedd naturiol ac adeiledig o fewn cymunedau lleol

Cysylltiadau â blaenoriaethau eraill:

- ✓ **Lles a Byw'n Annibynnol** – gwella iechyd corfforol a meddyliol drwy gynyddu mynediad i'r awyr agored ar gyfer ymarfer
- ✓ **Diogelwch Cymunedol** – gwneud cymunedau'n fwy diogel
- ✓ **Economi a Sgiliau** – datblygu and gwella safleoedd strategol (cyflogaeth a thai)
- ✓ **Cymunedau Gwydn** – galluogi ac ysbrydoli cymunedau i ddod yn hyderus, cydlynol a blaengar

Cymunedau Gwydn

Ystyr hyn yw:

- Galluogi ac ysbrydoli cymunedau i fod yn hyderus, cydlynol a blaengar
- Datblygu dull sy'n sicrhau, pan fo unrhyw wasanaeth cyhoeddus yn gweithio mewn ardal, fod sgiliau a chapasiti ychwanegol yn cael eu cryfhau o fewn y gymuned honno
- Cydlynu dull ar draws darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus sy'n gwneud y gorau o effaith manteision cymunedol
- Datblygu ymhellach fodelau perchnogaeth gymunedol gan gynnwys Trosglwyddo Asedau Cymunedol, (CATS), mentrau cymdeithasol bach a chyfranddaliadau cymunedol

Pam fod hon yn flaenoriaeth i'r partneriaid?

- ✓ Bod gan leoliadau effeithiol, llwyddiannus a gwydn y gallu i ddatrys eu problemau eu hunain, ymateb i a goresgyn problemau economaidd cymdeithasol ac amgylcheddol;
- ✓ Bod cymunedau gwydn wedi'u cysylltu'n dda o fewn yr ardal ac ag asiantaethau a sefydliadau eraill y tu allan i'w cymuned;
- ✓ Bod cymuned wedi'i chysylltu'n dda yn gallu gweithio gydag asiantaethau cyhoeddus ar y cyd i bennu blaenoriaethau ar gyfer y gymuned honno a bod yn bartner allweddol i sicrhau'r blaenoriaethau hyn;
- ✓ Mae'r dull hwn yn galw am weithlu yn y sector cyhoeddus sy'n fedrus o ran gweithio gyda chymunedau i helpu i bennu eu blaenoriaethau a hwyluso'r gwaith o'u cyflawni.

Beth yw'r dystiolaeth y tu ôl i'r stori hon?

- Dengys ymchwil fod gan 'Gymunedau Gwydn' gefnogaeth gan bob sector i ddatrys problemau, eu bod wedi'u cysylltu'n dda ac yn gallu gwneud penderfyniadau.
- Mae cyrff sector cyhoeddus wedi darparu cefnogaeth a chapasiti i gymunedau penodol mewn angen; ond nid yw'r gwaith hwn wedi bod yn gynaliadwy bob amser unwaith y daw'r ymyrraeth i ben.
- Gall gwasanaethau cyhoeddus newid pwyslais eu gwaith mewn cymunedau o gefnogaeth uniongyrchol i ddull mwy cydweithredol o weithio lle mae cymunedau lleol yn pennu eu blaenoriaethau eu hun ac yn dod o hyd i ddatrysiadau.

Cymunedau Gwydn

Beth ydym ni wedi ymrwymo i'w wneud?

- ✓ Dysgu gwersi o waith blaenorol yn y gymuned fel bod y gwaith yn y dyfodol yn cael effaith sylweddol a hirdymor
- ✓ Newid ein ffyrdd o weithio, felly pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda chymunedau, ein bod yn adeiladu ar y lefelau sgiliau yn y gymuned honno, ac yn eu datblygu
- ✓ Gweithio ar y cyd â chymunedau i ddeall, datblygu a gweithredu dyheadau hirdymor a chynlluniau sy'n adeiladu ar gryfderau'r gymuned honno

Pa gamau penodol fyddwn ni'n eu cymryd i gefnogi'r ymrwymiadau hyn?

- ✓ Hyfforddi a datblygu staff sector cyhoeddus allweddol yn y gwahanol ffyrdd hyn o weithio
- ✓ Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cytuno ar set o fanteision cymunedol [2] a fydd yn cefnogi cymunedau lleol ac y gellir eu darparu gan y gymuned a sefydliadau cymdeithasol, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau preifat
- ✓ Datblygu cyfleoedd i drigolion fod yn fwy gweithgar yn eu cymunedau sy'n arwain at welliannau o ran iechyd a lles
- ✓ Dylunio a datblygu prosiectau gyda'r gymuned mewn ardaloedd fel Holway, Fflint a Shotton fel y gall y gymuned bennu'r blaenoriaethau a meddu ar y sgiliau a'r capasiti i barhau'r gwaith yn y tymor hir
- ✓ Sefydlu dulliau newydd fel 'Cyfranddaliadau Cymunedol'[3] a 'Rhagnodi Cymdeithasol[4] sy'n galluogi i gymunedau ddatblygu eu hasedau lleol a gwella eu hiechyd a'u lles
- ✓ Cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhwydweithiau cymunedol y gellir eu cydlynu a'u cynnal gan gymunedau lleol
- ✓ Newid ein cynlluniau ffisegol tymor hir ar gyfer cymunedau er mwyn gallu datblygu adeiladau cymunedol a mannau naturiol a gwyrdd sy'n cysylltu pobl yn well

[2] Mae darparu gwerth ychwanegol drwy Fanteision Cymunedol yn gysylltiedig â chaffael contractwyr ar raglenni adeiladu cyfalaf. Gellir eu sicrhau hefyd trwy ddyfarniadau grant a Throsglwyddo Asedau Cymunedol. Maent yn sicrhau bod materion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn cael eu hystyried yn ystod cylch oes y prosiect.

[3] Mae Cyfranddaliadau Cymunedol yn gyfranddaliadau cyfalaf anhrosglwyddadwy, yn benodol i Co-op a Deddfwriaeth Cymdeithasau Budd Cymunedol a gellir eu defnyddio fel dull i ymgysylltu â'r gymuned i ddod yn gyfranddalwyr (berchnogion) busnesau cymunedol.

[4] Mae Rhagnodi Cymdeithasol yn ffordd o alluogi i wasanaethau gofal sylfaenol gyfeirio cleifion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol neu ymarferol i amryw o wasanaethau lleol, anghlinigol, a ddarperir yn aml gan y sector gwirfoddol a chymunedol.

Cymunedau Gwydn

Ble ddylem ni weld effaith?

- ✓ Newid ffyrdd o weithio ar draws bob sector sy'n cryfhau cymunedau
- ✓ Cynyddu cadernid sefydliadau cymunedol a chymdeithasol sy'n gallu darparu cefnogaeth i bobl leol
- ✓ Cynyddu cyfleoedd i bobl wella eu hiechyd a'u lles
- ✓ Cynyddu'r defnydd a'r gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol a gwneud defnydd helaethach o'r awyr agored
- ✓ Cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar weithgarwch economaidd
- ✓ Cynyddu nifer ac ansawdd y manteision sy'n cefnogi cymunedau lleol ('buddion cymunedol')

Cysylltiadau â blaenoriaethau eraill:

- ✓ **Economi a Sgiliau** – datblygu sgiliau ar gyfer cyfleoedd gwaith, lleihau diweithdra ac effaith diwygio cymdeithasol
- ✓ **Diogelwch Cymunedol** – gwneud cymunedau'n fwy diogel
- ✓ **Lles a Byw'n Annibynnol** – darparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd
- ✓ **Amgylchedd** – datblygu mwy o gyfleoedd i gael mynediad i'r isadeiledd gwyrdd

Lles a Byw'n Annibynnol

Ystyr hyn yw:

- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd
- Targedu ymyriadau lle gall unigolion a theuluoedd elwa fwyaf
- Darparu mwy o wasanaethau'n nes i'r cartref
- Adeiladu a chryfhau'r Sector Gofal

Pam fod hon yn flaenoriaeth i'r partneriaid?

- ✓ Mae sylfaen dystiolaeth gref yn ogystal â chyfrifoldeb cymdeithasol i gyfeirio ein ffocws ar atal afiechyd, lleihau anghydraddoldeb iechyd a darparu ar gyfer dewisiadau pobl i barhau i fod yn weithgar ac annibynnol o fewn eu cymuned eu hunain;
- ✓ Mae'n bosibl y gallai canolbwyntio ar flynyddoedd cynnar fod yn fanteisiol i'r unigolyn a lleihau'r galw ar wasanaethau yn ystod ei fywyd llawn;
- ✓ Er mwyn cefnogi trigolion ag anghenion mwy cymhleth, mae angen i ni gynnal ac yna, gryfhau'r sector gofal ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaeth yn y cartref gan fod y ddau'n fregus ar hyn o bryd;
- ✓ Mae disgwyliad oes yn cynyddu ond nid oes sicrwydd y bydd disgwyliad oes iach yn cynyddu. Y canlyniad yw bod mwy o bobl yn debygol o fod angen cymorth i reoli cyflyrau cronig a/neu fod yn fwy dibynnol o ganlyniad er enghraifft i fregusrwydd neu ddementia;
- ✓ Mae heriau sylweddol i fodloni gofynion y gweithlu presennol a'r un a ragwelir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol;
- ✓ Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn atgyfnerthu'r angen i gefnogi trigolion i gynnal iechyd da a dibynnu llai ar wasanaethau.

[5] Gwasanaethau Cartref yw'r rhai sy'n cael eu darparu i unigolyn yn ei gartref ei hun

Lles a Byw'n Annibynnol

Beth yw'r dystiolaeth y tu ôl i'r stori hon?

- Mae dylanwadu ar ddatblygiad plant i sicrhau'r datblygiad gorau posibl o ran eu hiechyd, eu datblygiad cymdeithasol ac addysgol, yn fwyaf effeithiol pan mae'n cael ei wneud mor gynnar â phosibl.
- Mae pobl sy'n cael eu geni yn rhannau mwyaf difreintiedig Sir y Fflint, ar gyfartaledd, yn debygol o farw 7 blynedd yn gynt na phobl sy'n cael eu geni yn rhannau cyfoethocaf y sir.
- Rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn parhau i wella, ac mae disgwyl i boblogaeth y rhai sy'n 65 oed dyfu o 31,000 yn 2015 i 46,100 erbyn 2039.
- Mae disgwyl y bydd nifer y bobl sy'n 65 oed a hŵn y mae angen gofal amdanynt mewn cartref gofal, ddyblu bron erbyn 2035 ac mae disgwyl i'r nifer ag angen gofal nyrsio arbenigol arnynt gynyddu'n sylweddol.
- Bydd nifer trigolion Sir y Fflint sy'n byw gyda dementia yn cynyddu i 1,350 (66%) erbyn 2030.
- Er mwyn i Sir y Fflint ddiwallu'r angen am welâu cartrefi gofal erbyn 2030, bydd angen 554 yn fwy o welâu gofal preswyl a 304 o welâu gofal nyrsio.

Beth ydym ni wedi ymrwymo i'w wneud?

- ✓ Darparu gwybodaeth a chefnogaeth pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd a'u cymunedau
- ✓ Targedu ymyriadau lle gall unigolion a theuluoedd elwa fwyaf
- ✓ Darparu mwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn nes i'r cartref
- ✓ Adeiladu a chryfhau'r sector gofal

Pa gamau penodol fyddwn ni'n eu cymryd i gefnogi'r ymrwymiadau hyn?

- ✓ Archwilio a gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd i hybu iechyd meddwl a lles
- ✓ Sicrhau cysylltiadau â meysydd gwaith blaenoriaeth eraill y BGC i hybu cyfleoedd iechyd a lles i'r eithaf, e.e. 'Symud Sir y Fflint Ymlaen' (Cymunedau Gwydn), mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau (Diogelwch Cymunedol)
- ✓ Cyflwyno'r Tîm Adnodd Cymunedol a'r Un Pwynt Mynediad amlasiantaeth, sydd wedi'i gyd-leoli
- ✓ Gweithredu blaenoriaethau Iechyd Cyhoeddus y cytunwyd arnynt, gan ganolbwyntio ar y rhai all elwa fwyaf
- ✓ Sicrhau bod anghenion iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu hasesu a'u diwallu, yn cynnwys trwy sicrhau bod deunyddiau hybu iechyd allweddol ar gael i ofalwyr maeth a staff gofal preswyl
- ✓ Gweithredu'n llawn yr Hyb Cymorth Cynnar[7] i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd

[6] Plant sy'n Derbyn Gofal yw plant dan ofal yr Awdurdod Lleol

[7] Mae'r Hyb Cymorth Cynnar yn brosiect amlasiantaeth dan arweiniad Heddlu Gogledd Cymru sy'n ceisio gwella'r 'siwrnai' i deuluoedd mewn risg uwch o broblemau'n gwaethygu gyda phwyslais ar wybodaeth, cyngor a chymorth

Lles a Byw'n Annibynnol

- ✓ Datblygu a gweithredu Cynllun "Heneiddio'n Dda yn Sir y Fflint" a fydd nid yn unig yn cefnogi pobl i heneiddio'n dda ond hefyd yn helpu i ddatblygu cymunedau er budd pobl o bob oed
- ✓ Datblygu llwybrau cadarn ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal y mae angen eu derbyn i ysbyty i'w helpu i ddychwelyd adref gyda chyn lleied o oedi â phosibl
- ✓ Sicrhau bod dull y Sir o adfywio'n cefnogi a hyrwyddo gwaith o fewn y Sector Gofal
- ✓ Cynyddu capasiti gwelâu a ddarperir yn fewnol ar hyn o bryd o ar gyfer gofal tymor byr a chefnogi 'Discharge to Assess'[8] mewn lleoliad cymunedol trwy ddefnyddio cyllidebau cronnus
- ✓ Hybu a diogelu iechyd ein gweithlu trwy eu hannog i gael mynediad at gyfleoedd i wella a chynnal iechyd (e.e. rhaglenni sgrinio cenedlaethol, 'Making Every Contact Count' (MECC), brechiad ffliw)

Ble ddylem ni weld effaith?

- ✓ Dangosyddion iechyd a lles yn y boblogaeth yn gwella
- ✓ Dangosyddion anghydraddoldebau iechyd yn gwella
- ✓ Lefelau gwelâu cartrefi gofal a chymorth yn y cartref yn cael eu cynnal ac yn cynyddu
- ✓ Nifer gweithgareddau cymunedol neu dan arweiniad y gymuned i hybu byw'n iach a "heneiddio'n iach" yn cynyddu
- ✓ Nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi y tu allan i ysbytai aciwt yn cynyddu
- ✓ Lefel gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth a gynigir trwy'r Un Pwynt Mynediad a'r Hwb Cymorth Cynnar yn cynyddu
- ✓ Cyfleoedd i bobl symud mwy a lleihau ymddygiad o fyw eisteddog yn cynyddu

Cysylltiadau â blaenoriaethau eraill:

- ✓ **Cymunedau Gwydn** – galluogi ac ysbrydoli cymunedau i ddod yn hyderus, cydlynol a blaengar
- ✓ **Amgylchedd** – datblygu mwy o gyfleoedd i gael mynediad i'r isadeiledd gwyrdd
- ✓ **Economi a Sgiliau** – datblygu sgiliau ar gyfer cyfleoedd gwaith, lleihau diweithdra ac effaith diwygio cymdeithasol
- ✓ **Diogelwch Cymunedol** – mynd i'r afael â chyffuriau ac alcohol / lleihau aildroseddu

[8] Mae 'Discharge to Assess' yn digwydd pan fo unigolyn yn feddygol iach i adael yr ysbyty a bod angen asesiad i benderfynu ar lefel y cymorth y bydd angen arno/arni gartref.